

CBAC LLWYBRAU CYMWYSTERAU MYNEDIAD

Teitl:	Ysgrifennu stori	
Cyfeirnodau Uned	Mynediad 2:	Mynediad 3:
Codau Cofrestru	Mynediad 2:	Mynediad 3:
Lefel	Mynediad 2 a Mynediad 3	
Gwerth Credyd:	3	
Nod yr uned	Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau ysgrifennu stori / naratif yn y Gymraeg	

Deilliannau Dysgu	Meini Prawf Asesu Mynediad 2	Meini Prawf Asesu Mynediad 3
I ennill credyd am yr uned hon, bydd y dysgwr yn:	Bydd asesiad y deiliant dysgu'n gofyn i'r dysgwr ddangos eu bod yn gallu:	Bydd asesiad y deiliant dysgu'n gofyn i'r dysgwr ddangos eu bod yn gallu:
DD1 Gallu ysgrifennu stori / naratif	MPA1.1 Ysgrifennu stori/naratif sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • llinyn stori • cymeriad • sefyllfa/digwyddiad • dechrau a diwedd 	MPA1.1 Ysgrifennu stori/naratif gan ddechrau creu effeithiau a dethol geiriau addas i'r pwrpas sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • llinyn stori • cymeriad • sefyllfa/digwyddiad(au) • dechrau, canol a diwedd

DD2 Gallu defnyddio adnoddau ieithyddol	MPA2.1 Defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb	MPA2.1 Defnyddio atalnodi – priflythyren, gofynnod, collnod ac atalnod llawn – yn gywir ar y cyfan
	MPA2.2 Sillafu mwyafrif y geiriau syml a sylfaenol yn gywir	MPA2.2 Sillafu'r geiriau sydd yn cael eu defnyddio fwyaf aml yn gywir
	MPA2.3 Defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau	MPA2.3 Cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sylfaenol MPA2.4 Dangos ymwybyddiaeth o ferfau
		MPA2.5 Dechrau defnyddio paragraffau

2. Ymhelaethu ar y Cynnwys

Dylid ystyried yr awgrymiadau canlynol yng nghyd-destun:

- y lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni
- darparu cyfleoedd i symud ymlaen
- cyfleusterau ac adnoddau'r ganolfan.

DD1 – gallu ysgrifennu stori am ddigwyddiad neu brofiad

Cyflwyno cysyniadau megis ffurf, sefyllfa, cymeriadau, disgrifiadau, deialog, cynllun / plot (dechrau, canol a diwedd) drwy astudio amrywiaeth o straeon syml, Rhestru digwyddiadau allweddol / gosod digwyddiadau yn eu trefn gywir / rhoi trefn ar gyfres o luniau / Gosod cyfres o wrthrychau mewn trefn ar gyfer creu stori
 Cyflwyno cyfres o eiriau / ymadroddion i greu stori
 Llunio bwrdd stori o'r digwyddiadau
 Creu ansoddeiriau, adferfau, cymariaethau addas i'r sefyllfa / cymeriad
 Defnyddio map meddwl

DD2 – gallu defnyddio iaith addas ar gyfer y dasg

Cyflwyno ac atgyfnerthu rheolau am atalnodi, defnydd o brif lythrennau
 Cyflwyno ymarferion sillafu
 Cyflwyno ymarferion gramadegol syml

3. Cyflwyno

3.1 Cynllunio cyrsiau

Bydd cyflawniad pob uned yn cael ei gadarnhau trwy 'ddatganiad o gyflawniad', fel y bydd dysgwyr yn cael rhywfaint o gydnabyddiaeth am yr holl waith a gwblheir. Fodd bynnag, wrth gynllunio cyrsiau bydd angen i athrawon ystyried y deilliannau cymhwyster posibl ar gyfer dysgwyr unigol. **I weld manylion llawn y cymwysterau (Dyfarniadau a Thystysgrifau) y gall yr uned hon gyfrannu atynt, ynghyd â'r rheolau cyfuno, dylech gyfeirio at fanyleb Llwybrau Mynediad CBAC.**

Yr unedau mwyaf tebygol i'w cyflwyno ar y cyd ag *Ysgrifennu Stori*:

Ymateb ar lafar i raglen deledu / ffilm Gymraeg
Ymateb i ddeunydd llenyddol Gymraeg (Rhyddiaith)

3.2 Adnoddau

Storïau allan o cyfres *Bwrlwm* CAA
Straeon Pum Munud
Deunydd allan o'r TASau CA3
Storïau o gyn bapurau Lefel Mynediad Cymraeg

Adnoddau iaith ar wefan GCaD Cymru:
Gloywi Iaith CYNNAL Gwynedd a Môn
Ymarferion iaith Telesgop
Gramadeg / Gemau iaith / Gweithgareddau Sillafu

4. Asesu

4.1 Ffyrdd o ddangos bod y meini prawf wedi'u cwrdd

Wrth gynllunio cyfleoedd asesu bydd angen ystyried:

- asesu ffurfiannol yn ogystal ag asesu crynodol
- ymdriniaeth â'r Meini Prawf Asesu ar gyfer yr uned hon
- ymdriniaeth â'r Meini Prawf Asesu ar gyfer unedau cyswllt

Mae'r mathau canlynol o dystiolaeth yn debygol o fod wedi'u cynnwys:

- mapiau meddwl
- bwrdd stori
- naratif ysgrifenedig
- tystiolaeth o ailddrafftio

4.2 Enghreifftiau o Dasgau

(a) Tasgau sy'n benodol i Ysgrifennu Stori

Creu Bwrdd Stori [M2]

Ysgrifennu am brofiad personol y myfyriwr

Creu stori am gymeriad(au) dychmygus

Ysgrifennu stori ar sail cyfres o luniau / cyfres o eiriau

Stori wedi ei seilio ar wrthrych

Gorffen stori

4.3 Cofnodi

Caiff yr asesiad ei gofnodi ar y ffurflen sydd ynghlwm trwy ddynodi bod pob Maen Prawf Asesu wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Rhaid cwrdd â'r holl feini prawf i gyflawni'r uned a dyfarnu'r credyd. Pan fydd uned yn cael ei darparu ar Mynediad 2 a Mynediad 3, gall y Deilliannau Dysgu fod yn rhai cyffredin ond bydd y Meini Prawf Asesu wedi'u gwahaniaethu a rhaid eu cwrdd ar y lefel berthnasol.

5. Trefniadau Gweinyddol

I gael manylion am y trefniadau gweinyddol, cyfeirier at fanyleb Llwybrau Mynediad CBAC, sy'n cynnwys gwybodaeth am:

- Dulliau Cofrestru
- Asesiad Mewnol a Safoni Allanol
- Dyfarnu ac Adrodd
- Cyhoeddi Canlyniadau
- Trefniadau Mynediad
- Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Ysgrifennu Stori Mynediad 2

COFNOD ASESU

Enw'r Ymgeisydd _____ Rhif yr Ymgeisydd _____

Enw'r Ganolfan _____ Rhif y Ganolfan _____

Meini Prawf Aseu	Wedi'u cwrdd	Tystiolaeth	Defnydd Swyddfa
MPA1.1			
MPA2.1			
MPA2.2			
MPA2.3			

Sylwadau Cyffredinol

Athro/Athrawes: _____ Dyddiad: _____

Safonwr: _____ Dyddiad: _____

Ysgrifennu Stori Mynediad 3

COFNOD ASESU

Enw'r Ymgeisydd _____ Rhif yr Ymgeisydd _____

Enw'r Ganolfan _____ Rhif y Ganolfan _____

Meini Prawf Aseu	Wedi'u cwrdd	Tystiolaeth	Defnydd Swyddfa
MPA1.1			
MPA2.1			
MPA2.2			
MPA2.3			
MPA2.4			
MPA2.5			

Sylwadau Cyffredinol

Athro/Athrawes: _____ Dyddiad: _____

Safonwr: _____ Dyddiad: _____